# Gludedd

## Amcanion dysgu

1. Cymharu gludedd gwahanol hylifau drwy wneud arsylwadau gofalus.
2. Cymhwyso eich dealltwriaeth o ronynnau i esbonio eich arsylwadau.
3. Dylunio arbrawf.

## Cyflwyniad

Rydych chi'n mynd i fesur yr amseroedd y mae'n eu cymryd i swigen godi drwy wahanol hylifau. Dyma ffordd o gymharu gludedd yr hylifau.

## Offer (fesul grŵp)

### Cyfarpar

- Stopwatsh
- Tiwbiau wedi'u selio o wahanol hylifau

### Cemegion

Dewiswch o'r canlynol:

- dŵr
- olew coginio
- Hylif golchi llestri
- Ethanol 
- Siampŵ neu ewyn ymolchi
- Mêl

### Offer diogelwch

- Cyfarpar amddiffyn y llygaid: sbectol ddiogelwch i EN166F

## Diagram




© 2025 Cymdeithas Frenhinol Cemeg

## Dull

Cymerwch un o'r tiwbiau a ddarperir.

1. Gwnewch yn siŵr bod y swigen ar y brig a bod y tiwb yn cael ei ddal yn fertigol.
2. Trowch y tiwb wyneb i waered yn gyflym a mesurwch yr amser y mae'n ei gymryd i'r swigen gyrraedd y brig.
3. Ailadroddwch y mesuriad hwn ar gyfer pob un o'r samplau.
4. Cwblhewch y tabl sydd wedi'i ddarparu.

## Canlyniadau

| | Amser a gymerwyd (e) | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Hylif** | **Prawf 1** | **Prawf 2** | **Prawf 3** | **Amser cymedrig (e)** |
| Dŵr | | | | |
| Olew coginio | | | | |
| Hylif golchi llestri | | | | |
| Ethanol | | | | |
| Siampŵ neu ewyn ymolchi | | | | |
| Mêl | | | | |

## Cwestiynau

1. Nodwch ystyr y gair gludedd.

_______________________________________________

_______________________________________________

2. Defnyddiwch eich canlyniadau i nodi'r hylif mwyaf gludiog? Pam wnaethoch chi ddewis eich ateb?

Hylif _______________________________________

Rheswm _______________________________________

3. Defnyddiwch eich canlyniadau i nodi'r hylif lleiaf gludiog? Pam wnaethoch chi ddewis eich ateb?

Hylif _______________________________________

Rheswm _______________________________________

© 2025 Cymdeithas Frenhinol Cemeg

4. Tynnwch ddiagram i ddangos sut mae'r gronynnau wedi'u trefnu mewn olew coginio.

5. Disgrifiwch beth sy'n digwydd i'r gronynnau pan fydd sampl o olew coginio yn cael ei arllwys i mewn i badell ffrio.

6. Eglurwch pam mae gludedd dŵr yn llai na gludedd ewyn ymolchi.

7. Rhagfynegwch sut y bydd gludedd mêl yn newid wrth i dymheredd y mêl gynyddu. Awgrymwch reswm dros eich ateb.

8. Dyluniwch arbrawf i ymchwilio i'r ffordd y mae'r tymheredd yn effeithio ar ludedd hylif. Dylech gynnwys:

- rhagfynegiad
- newidynnau (nodwch y newidynnau annibynnol, dibynnol a rheolydd)
- rhestr o offer
- dull
- tabl canlyniadau

© 2025 Cymdeithas Frenhinol Cemeg